

## **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

### **297 - Beirniadaeth Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl. 7, 8 a 9**

#### **Beirniad: Owain Gethin Davies**

*Efan Willaims, 'Aros Yma'*: Dyma gyfansoddiad mewn arddull ysgafn i unawdydd gyda chyfeiliant i allweddell ddigidol a chit drymiau. Ceir amrywiaeth o gordiau ac alaw ganadwy yn rhan y llais. Hoffwn weld datblygiad pellach wrth ysgrifennu cyfeiliant fwy dychmygus i'r offerynnau er mwyn ychwanegu fwy o liw a chyferbyniad.

Betsan Behnan 'Cymru 'Dyn Ni': Mae'r syniadau cerddorol wedi'u trefnu'n dda o fewn strwythur y gân ac mae'r cyfeiliant wedi ei gyfansoddi yn fedrus ac yn arddangos dealltwriaeth o ofynion cyfansoddi i'r piano. Hoffwn weld sylw pellach i ddatblygu'r syniadau cerddorol, cynnwys amrywiaeth fwy eang o gordiau ac i gysoni rhai o'r ffigyrau alawol yn rhan y llais.

*Alwena Owen, 'Unigrwydd Branwen'*: Dyma gyfansoddiad dychmygus a diddorol. Mae yma reolaeth dda dros iaith harmonig bwrpasol, sy'n gadarn ac yn ddiddorol. Hoffwn weld sylw i ddatblygu'r alawon yn y rhannau offerynnol gwahanol o un adran i'r llall gan gynnwys amrywiaeth fwy eang o ran rhythm a thraw.

*Lleucu-Haf Thomas 'Eglwys y Grog'*: Mae'r syniadau cerddorol cychwynnol yn dangos addewid ac yn dangos peth rheolaeth dros draw a rhythm. Hoffwn weld sylw pellach dros ddealltwriaeth o ddefnydd o gordiau amrywiol ac ysgrifennu cyfeiliant gan sicrhau bod yna fwy o amrywiaeth a datblygiad.

*Ela Mai Williams, 'Hawl i Fyw'*: Dyma gân sydd yn rhagori. Dyma gyfansoddiad sy'n dangos rheolaeth amlwg dros y gwriad, wrth i'r syniadau cerddorol gael eu trefnu'n feddylgar ac yn amrywiol yn eu perthynas â'r cyfrwng dewisedig. Mae'r syniadau cerddorol wedi'u datblygu'n ddychmygus gan ddefnyddio ystod o dechnegau a dyfeisiau cerddorol cymhleth.

1af - Ela Mai Williams, 'Hawl i Fyw'

2il - Efan Willaims, 'Aros Yma'

3ydd - Lleucu-Haf Thomas 'Eglwys y Grog'